Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

30 Mehefin 2010

Gweinidog Iechyd i Agor Uned Iechyd Meddwl Newydd

Yfory sef dydd Iau, 1 Gorffennaf 2010, bydd y Gweinidog Iechyd Edwina Hart yn ymweld ag Ysbyty Maelor Wrecsam i agor yr Uned Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yn swyddogol.

I'r gwrthwyneb, mae'r uned newydd yn cynnig y safonau diweddaraf o ran llety i gleifion a staff. Gweithiodd defnyddwyr y gwasanaeth a staff yr uned gyda'r tîm cynllunio, ac o ymweld â chyfleusterau eraill o gwmpas y DU, cafodd y tîm syniadau a phrofiadau a allai gael eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer Wrecsam.

Mae'r uned newydd yn hanner cyntaf datblygiad o £25 miliwn i ail-wneud cyfleusterau gofal iechyd meddwl yn yr Ysbyty a ddynodwyd fel rhai oedd â nifer o ddiffygion, o ran cynllun, mynediad a diffyg lle. At hynny, nid oedd yr adeilad bellach yn bodloni'r gofynion lleiaf o ran ei gyflwr na pherfformiad ynni.

Mae derbynfa wydrog agored yn eich arwain i'r ysbyty dydd a'r wardiau. Adeiladwyd y ddwy ward 14 gwely o amgylch cwrt agored, sy'n dod â golau i galon yr adeilad. Mae gan bob llofft unigol i gleifion gyfleusterau en-suite, ac mae'r mannau cyffredin yn helaeth, sy'n ychwanegu at y teimlad o ofod a heddwch o fewn yr uned. Mae'r ysbyty dydd yn cynnig ystod o ystafelloedd therapi a gweithgarwch, a lle i glinigau'r cof. Ac mae gan y ddau fynediad at fannau eang y tu allan, ar y llawr isaf a gardd ar y to ar gyfer y ward uchaf.

Dywedodd Dr Giles Harborne, Pennaeth Staff Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

"Mae'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu wedi datblygu llawer iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gellir gofalu am fwy o gleifion yn ddiogel ac effeithiol yn eu cymunedau eu hunain. Fodd bynnag, mae angen gwasanaethau ysbyty arnom ar gyfer gofal cleifion mewnol.

“Mae’r uned newydd hon yn gosod safon newydd i ofal iechyd meddwl cleifion mewnol. Drwy wrando ar farn defnyddwyr ein gwasanaeth, ac ymchwilio i’r hyn sydd wedi llwyddo mewn mannau eraill, rydym wedi creu amgylchedd arbennig iawn i’n cleifion ac i’r staff sy’n gweithio yma.”

DIWEDD

Nodiadau i’r golygyddion

Mae croeso i chi dynnu lluniau o’r seremoni agoriadol. Gadewch i Andy Scotson wybod os ydych yn bwriadu anfon gohebydd neu ffotograffydd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

30 June 2010

Minister to open new Mental Health Unit

Tomorrow, Thursday 1st July 2010, Health Minister Edwina Hart will visit Wrexham Maelor Hospital to officially open the new Older Persons Mental Health Unit.

The new unit is the first half of a £25 million development to replace facilities for mental health care at the Hospital which had been recognised as having a number of shortcomings in relation to layout, access and a lack of space. Furthermore the building no longer meet minimum requirements with regard to its physical condition or energy performance.

By contrast, the new unit offers patients and staff the very latest standards of accommodation. Service users and unit staff worked with the design team for the new units, and visits to other facilities around the UK enabled the team to benefit from experience elsewhere and pick up ideas that could be included in the design for Wrexham.

An airy double height glazed reception leads into the day hospital and ward areas. The two 14 bed wards are built around an open courtyard, bringing light into the heart of the building. Individual patient bedrooms all have en-suite facilities, and the communal areas are spacious, adding to the sense of space and peace within the unit. The day hospital provides a range of activity and therapy rooms and accommodation for memory clinics. And both areas benefit from access to large outdoor areas, both at ground level and with a roof top garden for the upstairs ward.

Dr Giles Harborne, the Chief of Staff for Mental Health Services with the Betsi Cadwaladr University Health Board said:

“The way mental health services are provided has advanced greatly in recent years, and more patients can be safely and effectively cared for in their own communities. However we still need to have hospital services available when there is a need for inpatient care.

"This new unit really sets a new standard for inpatient mental health care. By listening to the views of our service users, and investigating what has been successful elsewhere, we have created a very special environment both for our patients and for the staff that work here."

ENDS

Notes to Editors

Photographic coverage of the opening ceremony would be welcome. Please advise Andy Scotson if you intend sending a reporter or photographer.

For further information please contact:

Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**
Mrs Dawn Davies **01745 534495**